# Yr Ail Gynulliad - Cyfarfod Llawn

## Agenda (232)

**Dyddiad: Dydd Mercher, 8 Tachwedd 2006**
**Amser: 2.00pm**


**Eitem 1: Cwestiynau i Edwina Hart, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio**

**Eitem 2: Cwestiynau i Andrew Davies, y Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau**

**Eitem 3: Cwestiynau i'r Trefnydd ar ei chyfrifoldebau ac eithrio busnes**

**Eitem 4: Datganiad Busnes Drafft Diwygiedig**

**Eitem 5: Cynnig i gymeradwyo Gorchymyn Defaid a Geifr (Cofnodion, Adnabod a Symud) (Cymru) (Diwygio) 2006**

**Eitem 6: Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Bwydydd Anifeiliaid (Cymru) (Diwygio) 2006**

***Ni chynhelir dadl ar yr eitem hon. Cynhelir pleidlais arni'n syth***
**Eitem 7: Cynnig i gymeradwyo'r rheoliadau, The Plant Protection Products (Amendment) (No.2) Regulations 2006 o dan Reol Sefydlog 25 adran 3, Rheol Sefydlog 25.14 a Rheol Sefydlog 24.25**

**Eitem 8: Dadl am Adroddiad Gwerthuso Cyntaf Cymunedau yn Gyntaf**

**Eitem 9: Dadl fer - Diwydiant Llaeth Cymru: Argyfwng a Mwy**


....................................

## Eitem 1: Cwestiynau i Edwina Hart, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio

....................................

## Eitem 2: Cwestiynau i Andrew Davies, y Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau

………………………………

## Eitem 3: Cwestiynau i'r Trefnydd ar ei chyfrifoldebau ac eithrio busnes

………………………………

## Eitem 4: Datganiad Busnes Drafft Diwygiedig

………………………………

## Eitem 5: Cynnig i gymeradwyo Gorchymyn Defaid a Geifr (Cofnodion, Adnabod a Symud) (Cymru) (Diwygio) 2006

**NDM3297 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor Gorchymyn Defaid a Geifr (Cofnodion, Adnabod a Symud) (Cymru) (Diwygio) 2006 y gosodwyd copi ohono yn y Swyddfa Gyflwyno ar 17 Hydref 2006.

**NDM3298 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 24 Hydref 2006 ynghylch y gorchymyn drafft, Gorchymyn Defaid a Geifr (Cofnodion, Adnabod a Symud) (Cymru) (Diwygio) 2006; a

2. Yn cymeradwyo bod y gorchymyn drafft, Gorchymyn Defaid a Geifr (Cofnodion, Adnabod a Symud) (Cymru) (Diwygio) 2006 yn cael ei wneud yn unol ag:

a) y drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 17 Hydref 2006;

b) y Memorandwm Cywiriadau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 24 Hydref 2006, ac

c) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 23 Hydref 2006.

**Dogfennau Ategol:**

Gorchymyn Defaid a Geifr (Cofnodion, Adnabod a Symud) (Cymru) (Diwygio) 2006
Memorandwm Cywiriadau
Arfarniad Rheoliadol (Saesneg yn unig)
Adroddiad gan y Pwyllgor Deddfau

………………………………

## Eitem 6: Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Bwydydd Anifeiliaid (Cymru) (Diwygio) 2006

**NDM3299 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor Rheoliadau Bwydydd Anifeiliaid (Cymru) (Diwygio) 2006 y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ar 28 Medi 2006.

**NDM3300 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau’r Cynulliad ar 10 Hydref 2006 ynghylch y rheoliadau drafft, Rheoliadau Bwydydd Anifeiliaid (Cymru) (Diwygio) 2006; a

2. Yn cymeradwyo bod y rheoliadau drafft, Rheoliadau Bwydydd Anifeiliaid (Cymru) (Diwygio) 2006 yn cael eu gwneud yn unol ag:

a) y drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 28 Medi 2006; a

b) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 28 Medi 2006.

**Dogfennau Ategol:**

Rheoliadau Bwydydd Anifeiliaid (Cymru) (Diwygio) 2006
Arfarniad Rheoliadol (Saesneg yn unig)
Adroddiad gan y Pwyllgor Deddfau

………………………………

*Ni chynhelir dadl ar yr eitem hon. Cynhelir pleidlais arni’n syth*

## Eitem 7: Cynnig i gymeradwyo'r rheoliadau, The Plant Protection Products (Amendment) (No.2) Regulations 2006 o dan Reol Sefydlog 25 adran 3, Rheol Sefydlog 25.14 a Rheol Sefydlog 24.25

**NDM3301 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu’n unol ?heol Sefydlog 25.14 a Rheol Sefydlog 24.25:

Yn cymeradwyo’r rheoliadau drafft, The Plant Protection Products (Amendment) (No.2) Regulations 2006 (copi Saesneg yn unig) y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ar 24 Hydref 2006 ac yn nodi’r Memorandwm Esboniadol ar gyfer y Gorchymyn hwn a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 24 Hydref 2006.

**Dogfennau Ategol:**

The Plant Protection Products (Amendment) (No.2) Regulations 2006 (Saesneg yn unig)
Memorandwm Esboniadol (Saesneg yn unig)

**…………………………….**

## Eitem 8: Dadl am Adroddiad Gwerthuso Cyntaf Cymunedau yn Gyntaf

**NDM3302 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi canfyddiadau Gwerthusiad Dros dro y Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf;

2. Yn cymeradwyo ffocws y Rhaglen ar feithrin gallu fel rhywbeth sy’n hanfodol cyn sicrhau adfywio;

3. Yn llongyfarch pawb sy’n ymwneud ?weithgarwch Cymunedau yn Gyntaf ledled Cymru ar eu cyfraniad tuag at adfywio ardaloedd lleol.

Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:

Yn unol ?146;r canllawiau diwygiedig ar Grwpio, Dewis a Gwrthod Gwelliannau, mae’r Llywydd wedi penderfynu ym mha drefn y dylid eu cymryd at ddibenion trafodaeth. Bydd y pleidleisiau’n cael eu cynnal ar wah?

(1+8+9+10+11)
(2+3+4)
(5+6+7)

**Gwelliant 1 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Dileu popeth ar ?#145;Yn llongyfarch’ ac yn ei le, rhoi:

> *"yr holl staff sy’n ymwneud ?hyflwyno’r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf am eu gwaith ardderchog, er gwaethaf diffyg arweiniad a chefnogaeth ddybryd gan Lywodraeth Cynlluniad Cymru."*

**Gwelliant 2 - Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

"Yn cydnabod bod tai yn allweddol ar gyfer adfywio cymunedol cynaliadwy."

**Gwelliant 3 - Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

> *"Yn mynegi pryder ynghylch gwendidau Cymunedau yn Gyntaf o ran mesurau targed, rheolau archwilio ac ymyrraeth wleidyddol."*

**Gwelliant 4 - Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

> *"Yn gresynu bod Cymunedau yn Gyntaf, bum mlynedd ar ?’r rhaglen gael ei chyflwyno, yn dal i fod ymhell iawn o gyrraedd ei phrif nod, sef cynhyrchu’r canlyniadau adfywio, a bod prosiectau yn methu ?hyrraedd y grwpiau mwyaf difreintiedig yn y cymunedau."*

**Gwelliant 5 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

> *"Yn croesawu gwaith Cymunedau yn Gyntaf, a’r egwyddor ganolog mai pobl leol sydd yn y sefyllfa orau i ddeall eu hanghenion ond yn gresynu wrth y ffordd frysiog y cyflwynwyd y rhaglen yn wreiddiol."*

**Gwelliant 6 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

*"Yn nodi ?hryder diffyg cynnydd y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf o ran gweithio gyda phartneriaid sy’n darparu gwasanaethau lleol."*

**Gwelliant 7 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

*"Yn gresynu bod y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf wedi cymryd agwedd syml, cwbl ddaearyddol tuag at y dasg o adfywio yng Nghymru."*

**Gwelliant 8 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

*"Yn gresynu wrth y diffyg data sylfaenol i fesur effaith economaidd y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf."*

**Gwelliant 9 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

*"Yn gresynu bod y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf wedi methu ?hynhyrchu canlyniadau adfywio digonol."*

**Gwelliant 10 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

*"Yn gresynu bod rhai polis? San Steffan wedi gwrthdaro ag amcanion y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf."*

**Gwelliant 11 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

*"Yn galw ar y Gweinidog i wneud datganiad yn nodi:*
*a) faint o gynnydd a fu yn incwm pobl leol yn sgil Cymunedau yn Gyntaf; a*
*b) faint o swyddi a gr?d gan y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf, gan gynnwys y rheini nas cyflogir yn uniongyrchol i weinyddu’r rhaglen."*

**Dogfen Ategol:**

*Gellir gweld y Gwerthusiad dros dro yn:*
http://new.wales.gov.uk/topics/housingandcommunity/research/c1stinterim?lang=cy

……………………………..

## Eitem 9: Dadl fer

**NDM3296 Brynle Williams (Gogledd Cymru):**

Diwydiant Llaeth Cymru: Argyfwng a Mwy

……………………………..

**Disgwylir i'r cyfarfod ddod i ben erbyn 5.30pm**

……………………………..

# Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 2.00pm ddydd Mawrth, 14 Tachwedd 2006

**E P Silk**
**Clerc y Cynulliad**